O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2016 Rhif 508

# AMDDIFFYN

## Is-ddeddfau Ardal Hyfforddi Tredeml 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Ebrill 2016* |
| *Dod i rym - -* | *11 Awst 2016* |

## CYNNWYS


1. Enwi a chychwyn
2. Dehongliad
3. Mynediad i'r ardal o dir rheoledig a'r defnydd arno
4. Eithriadau
5. Hawliau tramwy a hawliau preifat
6. Gorchymyn i adael
7. Pŵer i symud

ATODLEN — Map yr Is-ddeddfau a Map Lleoliad yr Is-ddeddfau


Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr Is-ddeddfau canlynol gan arfer y pwerau a gyflwynir gan adran 14(1) Deddf Tiroedd Milwrol 1892(**a**).

Yn unol ag adran 17(1) y Ddeddf honno mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi peri i'r Is-ddeddfau arfaethedig fod yn hysbys yn yr ardal, rhoddi cyfle i wrthwynebiadau gael eu gwneud iddynt, a derbyn ac ystyried pob gwrthwynebiad a wnaed.

### Enwi a chychwyn

**1.** Gellir enwi'r Is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Ardal Hyfforddi Tredeml 2016 a byddant yn dod i rym ar 11 Awst 2016.

### Dehongliad

**2.** Yn yr Is-ddeddfau hyn —

mae "person penodedig" yn golygu'r swyddog milwrol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn i fod yn gyfrifol am yr ardal o dir rheoledig;

(**a**) 1892 c. 43.

mae “ardal o dir rheoledig” yn golygu’r darn o dir wedi’i liwio’n las ar Fap yr Is-ddeddfau yn yr Atodlen, ac mae ei lleoliad yn cael ei dangos ar Fap Lleoliad yr Is-ddeddfau yn yr Atodlen honno;

mae “swyddog gorfodi” yn golygu—

(a) aelod o heddlu’r lluoedd mewn lifrai;

(b) swyddog, swyddog gwarantedig, neu swyddog digomisiwn mewn lifrai sydd am y tro yn gweithredu dan gyfarwyddyd y person penodedig ac sy’n gweithredu dan gyfarwyddiadau’r person hwnnw; a

(c) pherson yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron sydd ag awdurdod ysgrifenedig gan y person penodedig i weithredu fel swyddog gorfodi;

mae i “dryll tanio” yr ystyr a roddir yn adran 57(1) Deddf Drylliau Tanio 1968(**a**);

mae i “lluoedd Ei Mawrhydi” yr ystyr a roddir yn adran 374 Deddf y Lluoedd Arfog 2006(**b**);

mae i“cerbyd pobl anabl” yr ystyr a roddir yn adran 185(1) Deddf Traffig Ffyrdd 1988(**c**);

mae “cerbyd modur” yn golygu cerbyd sy’n cael ei yrru’n fecanyddol sydd wedi’i fwriadu neu wedi’i addasu i’w ddefnyddio ar ffyrdd, heblaw am gerbyd pobl anabl;

mae “arf bygythiol” yn golygu unrhyw beth a gafodd ei wneud neu ei addasu i’w ddefnyddio ar gyfer achosi niwed i’r person, neu a fwriedir gan y person sy’n ei gario ar gyfer defnydd o’r fath gan y person hwnnw neu gan un arall;

mae i “heddlu’r lluoedd” yr ystyr a roddir yn adran 375 Deddf y Lluoedd Arfog 2006;

mae “tennyn byr” yn golygu tennyn o hyd sefydlog a heb fod dros ddau fetr.

### Mynediad i’r ardal o dir rheoledig a’r defnydd arni

**3.**—(1) Yn amodol ar is-ddeddfau 3(2) a 3(4), gall person fynd i’r ardal o dir rheoledig a’i defnyddio.

(2) Bydd person yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw’n—

(a) mynd i’r ardal o dir rheoledig neu’n parhau ynddi,

(b) peri i unrhyw beth fynd neu barhau yn yr ardal honno yn y fath fodd ag i rwystro’r defnydd o’r ardal honno, neu’n

(c) hedfan neu’n peri i unrhyw beth hedfan dros yr ardal honno ar uchder o lai na 500 troedfedd,

pan yw’n cael ei defnyddio er diben milwrol.

(3) Mae’n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni trosedd dan is-ddeddf 3(2)(a) nad oedd y person yn gwybod ac na allai fod wedi gwybod yn rhesymol fod yr ardal yn cael ei defnyddio er diben milwrol.

(4) Bydd person yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw o fewn yr ardal o dir rheoledig yn—

(a) mynd i ran o’r fynedfa’r ardal a gafodd ei nodi wedi’i gwahardd neu wedi’i chyfyngu;

(b) rhwystro person a grybwyllir yn is-ddeddf 4(1) sy’n gweithredu er diben milwrol;

(c) ymyrryd neu’n rhwystro’r defnydd ar un eiddo sydd dan reolaeth person a grybwyllir yn is-ddeddf 4(1) sy’n gweithredu er diben milwrol;

(d) symud neu’n ymyrryd ag unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau milwrol;

(e) cario dryll tanio neu arf bygythiol;

(f) defnyddio cyfarpar a gafodd ei gynllunio neu ei addasu er diben canfod metel;

(g) gyrru cerbyd modur;

---

(**a**) 1968 c. 27. Gwnaed amryw o ddiwygiadau i adran 57(1) y Ddeddf, yr un ohonynt yn berthnasol.
(**b**) 2006 c. 52.
(**c**) 1988 c. 52.

(h) marchogaeth neu arwain ceffyl;

(i) difrodi unrhyw wal, ffens neu strwythur;

(j) symud, difrodi neu ddifwyno arwydd neu hysbysiad;

(k) codi neu ddefnyddio unrhyw babell, neu unrhyw strwythur wedi'i gynllunio neu ei addasu er diben hwyluso cysgu neu aros mewn lle am unrhyw gyfnod;

(l) gollwng neu adael sbwriel neu wastraff ac eithrio mewn cynhwysydd a ddarperir ar gyfer y diben;

(m) hysbysebu neu gynnal masnach neu fusnes;

(n) cynnau tân neu wneud unrhyw beth sy'n debygol o achosi tân;

(o) methu cadw ci yn ei ofal ef neu hi ar dennyn byr ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod yn cychwyn ar 1 Mawrth a diweddu ar 31 Gorffennaf ym mhob blwyddyn;

(p) methu cadw rheolaeth ar anifail yn ei ofal ef neu hi, heb esgus rhesymol;

(q) methu cael gwared ar unrhyw wastraff a grëir gan gi yn ei ofal ef neu hi, heb esgus rhesymol;

(r) codi, torri neu ddifrodi unrhyw blanhigyn neu ffwng yn fwriadol;

(s) achosi difrod i'r tir;

(t) rhoi unrhyw anifail i bori;

(u) lladd neu drapio adar neu anifeiliaid, neu fynd â'u hwyau neu ddinistrio eu hwyau;

(v) gweithredu mewn ffordd sy'n debygol o achosi braw neu ofid i berson arall, heb esgus rhesymol;

(w) gweithredu mewn ffordd sy'n debygol o achosi dicter, niwsans neu niwed i berson arall, heb esgus rhesymol;

(x) methu cydymffurfio ag arwydd neu hysbysiad sy'n gosod gwaharddiad neu gyfyngiad.

**Eithriadau**

**4.**—(1) Mewn perthynas â pherson a awdurdodir gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn i ddefnyddio'r ardal er diben milwrol ac aelod o luoedd Ei Mawrhydi dan ei orchymyn ef neu hi—

(a) nid yw is-ddeddf 3(2) yn gymwys;

(b) mae is-ddeddf 3(4) yn gymwys, ac eithrio i'r graddau y mae ef neu hi'n gweithredu er y diben milwrol awdurdodedig.

(2) Nid yw is-ddeddfau 3(2) a 3(4) yn gymwys i—

(a) berson i'r graddau y mae ef neu hi'n gweithredu dan unrhyw ganiatâd a roddir yn ysgrifenedig gan y person penodedig ac yn unol â hynny;

(b) cwnstabl sy'n gweithredu wrth ymarfer ei ddyletswyddau ef neu hi; a

(c) pherson sy'n gweithredu er dibenion tân ac achub neu ambiwlans sy'n ymateb i argyfwng o fewn yr ardal o dir rheoledig.

**Hawliau tramwy a hawliau preifat**

**5.**—(1) Nid oes unrhyw beth yn yr Is-ddeddfau hyn yn effeithio ar hawliau tramwy'r cyhoedd o fewn yr ardal o dir rheoledig, pob un ohonynt wedi'u marcio â llinell werdd ar Fap yr is-ddeddfau yn yr Atodlen.

(2) Nid oes unrhyw beth yn yr Is-ddeddfau hyn yn effeithio ar yr hawl tramwy o fewn yr ardal o dir rheoledig a ganiateir gan yr Ysgrifennydd Gwladol er budd yr eiddo a elwir yn Compownd, Course Hill, Upper Carne Road, Tredeml, Arberth, Sir Benfro, SA67 8SR, y gellir ei weithredu dros yr ardal sydd wedi'i nodi â llinell felen ar Fap yr Is-ddeddfau yn yr Atodlen.

(3) Nid oes unrhyw beth yn yr Is-ddeddfau hyn yn effeithio ar hawliau twyddedigion a thenantiaid yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn dan eu cytundebau gydag ef.

**Gorchymyn i adael**

**6.**—(1) Er mwyn atal trosedd rhag cael ei chyflawni dan is-ddeddf 3(2) neu is-ddeddf 3(4), gall cwnstabl, swyddog gorfodi neu berson awdurdodedig orchymyn i berson—

(a) adael yr ardal o dir rheoledig, a

(b) symud o'r ardal honno unrhyw beth y mae'r person hwnnw â rheolaeth trosto,

ac eithrio i'r graddau sy'n angenrheidiol i ymarfer hawl tramwy.

(2) Gall cyfarwyddyd dan is-ddeddf 6(1)(a) gynnwys cyfarwyddyd i beidio â dychwelyd i'r ardal honno tan—

(a) ddiwedd cyfnod a nodir gan y person sy'n rhoi'r cyfarwyddyd ; neu

(b) os na nodir cyfnod, diwedd y dydd y rhoddir y cyfarwyddyd.

(3) Rhaid i gyfnod a nodir dan is-ddeddf 6(2)(a) beidio â bod dros 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod y rhoddir y cyfarwyddyd.

(4) Rhaid i gyfarwyddyd dan is-ddeddf 6(1)—

(a) gael ei roi'n ysgrifenedig, oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny; ac

(b) os yw'n ysgrifenedig, rhaid nodi'r dyddiad y caiff ei roi.

(5) Gall cyfarwyddyd dan is-ddeddf 6(1)—

(a) gael ei roi i berson yn unigol neu i ddau neu fwy o bobl gyda'i gilydd; a'i

(b) dynnu'n ôl neu ei amrywio gan y person a'i rhoddodd neu gan y person penodedig.

(6) Mae'n drosedd methu cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir dan is-ddeddf 6(1).

(7) Yn is-ddeddf 6(1) mae "person awdurdodedig" yn golygu unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan y person penodedig er dibenion yr is-ddeddf honno ac sy'n gweithredu dan ei gyfarwyddiadau ef neu hi.

**Pŵer i symud**

**7.**—(1) Gall cwnstabl neu swyddog gorfodi sy'n credu'n rhesymol bod person—

(a) wedi cyflawni trosedd dan is-ddeddf 3(2), neu

(b) sy'n methu cydymffurfio â chyfarwyddyd i adael dan is-ddeddf 6(1)(a),

symud y person hwnnw o'r ardal o dir rheoledig.

(2) Gall cwnstabl neu swyddog gorfodi sy'n—

(a) credu'n rhesymol bod person wedi cyflawni trosedd dan is-ddeddf 3(4), ac

(b) sy'n ystyried ei bod yn angenrheidiol atal trosedd bellach dan yr is-ddeddf honno rhag cael ei chyflawni gan y person hwnnw,

symud y person hwnnw o'r ardal o dir rheoledig.

*Mark Lancaster*
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Amddiffyn

11 Ebrill 2016

# ATODLEN

Is-ddeddf 2

## Map yr Is-ddeddfau a Map Lleoliad yr Is-ddeddfau

## NODYN EGLURHAOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Is-ddeddfau)*

Mae'r is-ddeddfau hyn yn rheoleiddio'r ardal o dir a elwir yn Ardal Hyfforddi Tredeml, ger Tredeml yn Sir Benfro.

Mae Is-ddeddf 3 yn rheoleiddio mynediad i'r ardal a'r defnydd ohoni. Dan is-ddeddfau 3(1) a (2) caniateir mynediad i'r cyhoedd pan na fydd yr ardal yn cael ei defnyddio er dibenion milwrol. Fodd bynnag, dan is-ddeddf 3(4) mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn cael eu caniatáu, er enghraifft, gyrru cerbyd modur. Mae torri is-ddeddf 3(2) neu 3(4) yn drosedd.

Dan is-ddeddf 4, mae rhai pobl yn cael eu heithrio o is-ddeddfau 3(2) a 3(4), gan gynnwys y rhai sydd ag awdurdod i ddefnyddio'r ardal er dibenion milwrol (dan is-ddeddf 4(1)) a phersonau sy'n gweithredu'n unol â chaniatâd ysgrifenedig oddi wrth y person penodedig (dan is-ddeddf 4(2)(a)). Dylai unrhyw berson sy'n ceisio caniatâd dan is-ddeddf 4(2)(a) wneud cais trwy lythyr at: y Person Penodedig dros Ardal Hyfforddi Tredeml, Gwersyll Hyfforddi Penalun, Penalun, Dinbych-y-pysgod, SA70 7QL.

Dan is-ddeddf 5, nid yw'r Is-ddeddfau hyn yn effeithio ar rai hawliau tramwy preifat na'r hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r ardal.

Dan is-ddeddf 6, gall cwnstabl a rhai pobl eraill, er mwyn atal trosedd dan is-ddeddf 3(2) neu 3(4), gyfarwyddo person i adael yr ardal neu fynd ag unrhyw beth y mae ganddo ef neu hi reolaeth trosto. Gall cyfarwyddyd i adael yr ardal gynnwys gofyniad i'r person beidio â dychwelyd i'r ardal cyn i gyfnod penodedig (heb fod dros 28 diwrnod) fynd heibio. Mae'n drosedd dan is-ddeddf 6(6) methu cydymffurfio â chyfarwyddyd i adael.

Dan rai amgylchiadau gall cwnstabl neu swyddog gorfodi symud person o'r ardal dan is-ddeddf 7.